# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 2 Mawrth 2017 i'w hateb ar 7 Mawrth 2017

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 2.

## Gofyn i Brif Weinidog Cymru

**1.** **John Griffiths (Dwyrain Casnewydd):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am bolisi Llywodraeth Cymru ar ddatblygu economaidd yn ne-ddwyrain Cymru? OAQ(5)0493(FM)

**2.** **David Rowlands (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu cynlluniau Llywodraeth Cymru i wella mynediad i Faes Awyr Caerdydd? OAQ(5)0494(FM)

**3.** **Mark Isherwood (Gogledd Cymru):** Sut y mae Llywodraeth Cymru yn helpu i leihau'r rhwystrau i gyflogaeth ar gyfer pobl sydd â chyflyrau iechyd hirdymor cyfnewidiol? OAQ(5)0481(FM)

**4.** **Jeremy Miles (Castell-nedd):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y seilwaith cyfathrebu digidol yng Nghymru? OAQ(5)0488(FM)

**5.** **Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro):** Pa gynlluniau sydd gan y Prif Weinidog i fynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n wynebu'r broses o recriwtio meddygon teulu yng Nghymru? OAQ(5)0484(FM)

**6.** **Jayne Bryant (Gorllewin Casnewydd):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am arferion bydwreigiaeth yng Nghymru? OAQ(5)0483(FM)

**7.** **Michelle Brown (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gamau gorfodi a gymerwyd o dan Reoliadau Lles Anifeiliaid (Bridio Cŵn) (Cymru) 2014? OAQ(5)0487(FM)

**8.** **Dawn Bowden (Merthyr Tudful a Rhymni):** Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cynnal ynghylch effaith diwygio lles ar gefnogi anghenion tai yng Nghymru? OAQ(5)0492(FM)

**9.** **Hefin David (Caerffili):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am wasanaethau endometriosis yng Nghymru? OAQ(5)0495(FM)

**10.** **Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am fewnfuddsoddi yng Ngorllewin De Cymru? OAQ(5)0489(FM)

**11. Gareth Bennett (Canol De Cymru):** Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael â chymdeithasau tai er mwyn darparu mwy o gartrefi fforddiadwy yng Nghymru? OAQ(5)0491(FM)

**12. Caroline Jones (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu'r camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gefnogi cais Abertawe i fod yn Ddinas Diwylliant y DU yn 2021? OAQ(5)0486(FM)

**13. Neil Hamilton (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd i sicrhau bod pobl sy'n fyddar neu'n colli eu clyw yng Nghymru yn gallu parhau i elwa ar dechnoleg gynorthwyol ac offer cynorthwyol? OAQ(5)0485(FM)

**14. Eluned Morgan (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gymorth i fusnesau yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru? OAQ(5)0482(FM) **- TYNNWYD YN ÔL**

**15. Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am signal ffonau symudol ym Môn? OAQ(5)0490(FM)**W**